ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

9.3.22

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Hoffwn eich gwahodd i Noson rhithiol yn cyflwyno cyrsiau TGAU yr ysgol ar Teams ar nos Fercher, y 16eg o Fawrth. Bydd y noson yn dechrau am 6:00yh. Bydd cyflwyniad byr am y cyrsiau TGAU a sut i fynd ati i wneud yr opsiynau. Mae gwahoddiad yn Nhîm Bl.9 (bydd angen bod eich plentyn wedi mewn gofnodi), neu cliciwch ar y ddolen isod. Os bydd angen cyfarpar arnoch er mwyn mynychu'r noson, a wnewch chi gysylltu gyda Mrs Vaughan trwy ebost (VaughanN9@hwbcymru.net).

Yn wahanol i'r arfer, cewch gyfle i gwrdd â'r athrawon fydd yn cyflwyno'r pynciau mewn fideo ar wefan Flipgrid fydd ar agor i chi ar y noson. Bydd enw'r pwnc ar ddechrau'r cyflwyniad, heblaw am Gelf ac enw'r athrawes sydd yno. Bydd llyfryn o wybodaeth am yr opsiynau ar gael i chi hefyd.

Bydd manylion cyswllt yr athrawon ar gael trwy'r cyflwyniadau a bydd croeso i chi gysylltu gyda'r aelod o staff i holi cwestiynau neu sgwrsio'n anffurfiol fel y gall eich plentyn wneud dewisiadau gwybodus am y pynciau mwyaf addas i astudio'r flwyddyn nesaf.

Edrychwn ymlaen at eich gweld ar y noson, ond os oes unrhyw gwestiwn gennych ynglŷn â'r trefniadau neu unrhyw agwedd o'r cyrsiau TGAU yn y cyfamser mae croeso i chi gysylltu â mi.

Manylion cyfarfod Teams: Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod.
Cyfeiriad gwefan Flipgrid: https://flipgrid.com/42c85d0a

Yn gywir,

Heledd Clarke
Arweinydd Dysgu CA3

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Wales School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

9.3.22

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales